Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 12.11.2020

## £10 miliwn yn ychwanegol ar gael ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru

Yn dilyn y galw uchel am gyllid ar draws y sectorau celfyddydol a diwylliannol mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bydd £10.7 miliwn ar gael i gefnogi sefydliadau ac unigolion yn ystod y pandemig, gan olygu bod cyfanswm y pecyn cyllido sydd ar gael drwy'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn £63.7miliwn. Ewch i:

https://llyw.cymru/10-miliwn-yn-ychwanegol-ar-gael-ar-gyfer-y-celfyddydau-diwylliant-yng-nghymru

## Gadael yr UE: Llythyr gan Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates

Mae Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, Ken Skates, wedi

gyfer y newidiadau a fydd yn digwydd ac yn effeithio arnyn nhw o 1 Ionawr

2021. Yn gryno, mae'r llythyr yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i'w helpu drwy ddiwedd cyfnod pontio'r UE a thu hwnt. Os ydych yn ymwneud â masnachu â'r UE, bydd yn bwysig ystyried sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar eich busnes. Darllenwch y llythyr yn ei gyfanrwydd yma:

https://bit.ly/3ln3T0y

# Estyniad i Grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth – SEISS

Mae'r grant yn cael ei estyn o 1 Tachwedd 2020 ymlaen ac ar gael mewn ffurf dau grant, bob un ar gael am gyfnod o dri mis, yr un yn cwmpasu Tachwedd 2020 hyd at Ionawr 2021, ac un yn cwmpasu Chwefror 2021 hyd at Ebrill 2021. Bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer y grant nesaf ar gael o 30 Tachwedd 2020 ymlaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/self-employment-income-support-scheme-grant-extension.cy

# Diweddariad: Ymestyn Cynlluniau Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws a Chronfa Swyddi'r Dyfodol – Cau diwedd Ionawr 2021

Mae'r pedwar cynllun benthyciadau dros dro a gynlluniwyd i gefnogi busnesau'r DU sy'n colli refeniw ac sy'n profi tarfu ar eu llif arian o ganlyniad i argyfwng COVID-19 bellach ar agor tan 31 Ionawr 2021 ar gyfer ceisiadau newydd.

- Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (CBILS)
- Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes Mawr yn sgil y Coronafeirws (CLBILS)
- Cynllun Benthyciadau Adfer (BBLS) – O 10 Tachwedd 2020 ymlaen, gall benthycwyr sy'n cymryd rhan yn BBLS gynnig llenwi benthyciad presennol BBLS busnesau llai ledled y DU, pe baent wedi benthyca llai na'r uchafswm a oedd ar gael iddynt yn wreiddiol.
- Cronfa Swyddi'r Dyfodol

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Banc Busnes Prydain:

https://www.british-business-bank.co.uk/ourpartners/coronavirus-business-interruption-loan-schemes/

## Digwyddiad 'Patrwm' 19 Tachwedd 2020 a 23 Tachwedd 2020

Mae sawl cynllun WiFi am ddim wedi'w datblygu mewn trefi ar draws y sir. Os oes sustem WI-Fi am ddim wedi cael ei osod yn eich tref darganfyddwch sut ellwch chi wneud y mwyaf o'r data mae o'n gynhyrchu, megis dysgu mwy am batrwm ymwelwyr yn eich tref, pryd mae nhw'n ymweld ac am faint mae nhw'n aros. Mae Menter Môn wedi creu llwyfan 'Patrwm' sydd yn dangos y wybodaeth yma i gyd a mwy!

https://patrwm.io

Maent wedi trefnu 2 ddigwyddiad arlein, yr un cynnwys, ond bydd un gyda'r nôs a llall yn ystod y dydd, er mwyn rhannu gyda chi beth ydi Patrwm, sut i ddeall y data ac sut y gallai hyn helpu eich busnes i weithio'n fwy effeithiol yn y dyfodol.

- I gofrestru ar gyfer Tachwedd 19 2020 am 7:00pm, ewch i: https://bit.ly/3kj2xCz

- I gofrestru ar gyfer Tachwedd 23 2020 am 2:00pm, ewch i: https://bit.ly/36lclHg

Os oes gennych unrhyw gwestiynau fe ellwch gysylltu â Rhian Hughes, Menter Môn:

rhian@mentermon.com

## Cynhadledd Merched yn rheoli eu hunain 17 Tachwedd 2020

Mae'r gynhadledd 'Merched yn Rheoli eu Hunain' wedi cael ei lansio i ddathlu ac annog entrepreneuriaeth ymysg merched yng Nghymru. Mi fydd y digwyddiad ar-lein yn cymryd lle o 9:50am – 2:00pm ar 17 Tachwedd 2020.

Bydd Kelly Davies, cyd-sylfaenydd The Good Wash Company, Marian Evans, sylfaenydd Elevate BC a pherchennog Castell Llansteffan ac Elinor Davies-Farn, perchennog Olew yn rhannu eu straeon busnes, profiadau, heriau a’u prif gynghorion ynghylch cychwyn busnes. Mae’r digwyddiad hwn yn gynhwysol ag yn agored i ddynion hefyd, nid merched yn unig. Byddwch yn cael cyfle i ofyn cwestiynau ar Zoom neu deipio eich cwestiwn yn yr adran sgwrsio ar y diwrnod. Am fwy o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/36tHN6p

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru